**WHC 2026 017**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi:** 31 Mawrth 2026

**Statws:** Gweithredu

**Categori:** Gofal Sylfaenol

## **Teitl:** Galluogi fferyllfeydd cymunedol i gyflenwi meddyginiaethau a archebir gan optometryddion fel rhan o ddarparu gofal i'r GIG yng Nghymru

**Dyddiad Dod i Ben / Adolygu:** Amh

**I'w weithredu gan:**

Fferyllfeydd Cymunedol a phractisau optometreg sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru

**Er gwybodaeth at:**

Brif Weithredwyr, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Fferylliaeth, Byrddau Iechyd
Ymarferwyr Cyffredinol
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Optometreg Cymru
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
Coleg yr Optometryddion
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

**Anfonir gan:** Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol a David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig, Llywodraeth Cymru

**Enwau cyswllt yn Llywodraeth Cymru:**
Y Gangen Fferylliaeth a Phresgripsiynu, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
E-bost: Pharmacyand.PrescribingBranch@gov.wales

**Dogfennau amgaeedig:** Enghraifft o ffurflen WP10(SO)

Annwyl Gydweithwyr

**Galluogi fferyllfeydd cymunedol i gyflenwi meddyginiaethau a archebir gan optometryddion fel rhan o ddarparu gofal i'r GIG yng Nghymru – Newidiadau pwysig o 6 Ebrill 2026**

Mae'r Cylchlythyr Iechyd hwn yn nodi newidiadau pwysig mewn gofal sylfaenol i wella mynediad cleifion at wasanaethau gofal llygaid hanfodol sy'n effeithio ar optometryddion y GIG a fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru, a ddaw i rym ar 6 Ebrill.

Cyflwyniad

Mae diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 a wnaed yn 2024yn galluogi fferyllfeydd cymunedol y GIG yng Nghymru i gyflenwi meddyginiaethau a chyfarpar rhestredig offthalmig penodedig yn unol ag archeb y GIG wedi'i llofnodi GIG a ysgrifennwyd gan optometrydd cymwys yng Nghymru.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn, o 6 Ebrill bydd optometryddion y GIG sy'n gweithio yng Nghymru yn gallu darparu archeb wedi'i llofnodi i'w cleifion ar gyfer rhestr gyfyngedig o feddyginiaethau a chyfarpar i drin cyflyrau llygaid cyffredin.  Caiff fferyllfeydd gyflenwi'r rhain wedyn yn rhad ac am ddim. Caiff cost unrhyw feddyginiaethau neu gyfarpar eu had-dalu i fferyllfeydd a byddant yn cael ffi am bob cyflenwad y maent yn ei wneud yn erbyn archeb optometreg y GIG wedi'i llofnodi'.

Y cefndir deddfwriaethol

Mae Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 yn darparu esemptiadau i ddosbarthiadau penodedig o bersonau werthu, cyflenwi neu weinyddu meddyginiaethau presgripsiwn yn unig a bennir, meddyginiaethau fferyllfa a meddyginiaethau'r rhestr werthu gyffredinol mewn amgylchiadau penodedig.  Nodir y personau, y meddyginiaethau a'r amgylchiadau hyn yn Rhan 4 o Atodlen 17 i'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol ac maent yn caniatáu i optometryddion cofrestredig werthu neu gyflenwi'r holl gynhyrchion meddygol ar restr werthu gyffredinol, yr holl feddyginiaethau fferyllol a rhai meddyginiaethau presgripsiwn yn unig gan gynnwys diferion llygaid cloramffenicol ac eli llygaid, paratoadau sy'n cynnwys asid ffwsidig, a pharatoadau sy'n cynnwys cyclopentolad hydroclorid.  Mae Rhan 1 o Atodlen 17 yn caniatáu i fferyllfeydd cofrestredig gyflenwi'r meddyginiaethau hyn i gleifion pan gyflwynir archeb sydd wedi'i llofnodi gan optometrydd cofrestredig (“archeb wedi'i llofnodi”).

Cyflenwi meddyginiaethau yn erbyn archebion wedi'u llofnodi gan optometryddion sy'n darparu gwasanaethau'r GIG

Mae diwygiadau i'r telerau gwasanaeth ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru a wnaed yn 2024 yn gwneud y canlynol yn ofyn nol: Pan fydd person yn cyflwyno archeb wedi'i llofnodi ar gyfer cyfarpar offthalmig rhestredig neu feddyginiaeth offthalmig rhestredig sydd wedi'i llofnodi gan optometrydd cymwys, rhaid i'r fferyllfa gyflenwi'r meddyginiaethau hynny yn unol ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan yr optometrydd cymwys.

Defnyddio ffurflenni archebu wedi'u llofnodi gan y GIG gan optometryddion yng Nghymru

O 6 Ebrill ymlaen, bydd optometryddion sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yn cael **ffurflen archebu newydd WP10(SO) y GIG wedi'i llofnodi** (gweler yr amgaeedig) i'w defnyddio wrth archebu meddyginiaethau fel rhan o'u practis yn y GIG.

Mae rhagor o wybodaeth i optometryddion ynglŷn â'r defnydd o archebion wedi'u llofnodi wrth ddarparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) ar gael yn llawlyfr gwasanaeth WGOS sydd ar gael yn Dogfennau Gofal Llygaid - GIG Cymru.

Darperir cyflenwad cychwynnol o ddau becyn yr un sy'n cynnwys 100 o ffurflenni WP10(SO) (h.y. cyfanswm o 200 o ffurflenni), i bob practis optometrig yng Nghymru. **Nid oes angen i optometryddion archebu'r cyflenwad cychwynnol**. Pan fydd angen ffurflenni ychwanegol, gall optometryddion eu harchebu gyda'r adran storfeydd ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru y maent yn archebu ffurflenni WGOS oddi wrthi ar hyn o bryd.
Wrth gwblhau archeb wedi'i llofnodi, dylai optometryddion sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol wedi'i chynnwys ar y ffurflen:

- Enw a chyfeiriad y person i'w darparu;
- Enw, cyfeiriad a manylion cofrestru proffesiynol (h.y. rhif cofrestru'r Cyngor Optegol Cyffredinol) yr optometrydd sy'n gwneud yr archeb;
- Enw generig[1], ffurf, cryfder a maint y meddyginiaethau neu'r cyfarpar sydd i'w cyflenwi; a
- Unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer y defnydd priodol o'r meddyginiaethau neu'r cyfarpar hynny.

[1] Dylai optometryddion archebu meddyginiaethau a chyfarpar gan ddefnyddio'r enw generig heblaw wrth archebu palmitad retinol gyda pharaffin meddal gwyn, paraffin hylif ysgafn, paraffin hylif ac eli llygaid braster gwlân heb ddeunydd cadw lle Hylo Night® yw'r unig baratoad sydd ar gael a gellir ei archebu â'i enw perchnogol.

Caiff ffurflenni eu darparu i gleifion neu eu cynrychiolwyr y dywedir wrthynt am eu cyflwyno mewn fferyllfa gymunedol er mwyn cael y meddyginiaethau neu'r cyfarpar a archebwyd gan yr optometrydd.

Meddyginiaethau a chyfarpar y gellir eu harchebu gan optometryddion y GIG yng Nghymru

Yn 2025, ymgynghorodd Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru (AWMSG) ar y rhestr o feddyginiaethau a chyfarpar y gellir eu harchebu gan optometryddion y GIG gan ddefnyddio'r ffurflen WP10(SO) ac a fydd yn cael eu had-dalu gan y GIG. Gellir gweld Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru – Llyfr Fformiwlâu Archebion wedi'u Llofnodi) sy'n cynnwys y meddyginiaethau a'r cyfarpar (ar y rhestr offthalmig) y gellir eu harchebu fel rhan o'r GIG y cytunwyd arnynt gan AWMSG, yn Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru – Llyfr Fformiwlâu Archebion wedi'u Llofnodi - Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan. Bydd y rhestr hon hefyd yn cael ei chyhoeddi yn Rhan XVIID o'r Tariff Cyffuriau o fis Ebrill.
Dylid gwneud archebion wedi'u llofnodi gan ddefnyddio enw generig y meddyginiaethau neu'r cyfarpar i'w cyflenwi. [1r]

Cyflenwi meddyginiaethau a chyfarpar a archebir gan optometryddion y GIG yng Nghymru

Mae'r telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr fferyllfeydd yn ei gwneud yn ofynnol i fferyllfeydd gyflenwi'r meddyginiaethau a'r cyfarpar a archebir gan optometryddion y GIG pan gyflwynir ffurflen WP10(SO).[2] Gall meddyginiaethau a chyfarpar rhestredig a archebir ar ffurflenni WP10(SO) gael eu cyflenwi yn rhad ac am ddim gan unrhyw fferyllfa sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru; er hynny, ni ellir eu defnyddio mewn fferyllfeydd mewn rhannau eraill o'r DU.

Gall fferyllfeydd gyflenwi unrhyw baratoad sy'n cydymffurfio â manyleb y meddyginiaethau neu'r cyfarpar a archebir a bydd ad-daliad yn seiliedig ar bris y feddyginiaeth neu'r cyfarpar a restrir yn y Tariff Cyffuriau neu pan nad ydynt wedi'u rhestru, pris rhestr y gwneuthurwr. Ni fydd archebion ar gyfer meddyginiaethau a chyfarpar nad ydynt wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru – Archebion wedi'u Llofnodi yn cael eu had-dalu.

Wrth gyflenwi meddyginiaeth neu gyfarpar yn unol ag archeb wedi'i llofnodi gan y GIG, dylai fferyllfeydd labelu'r feddyginiaeth neu'r cyfarpar a gyflenwir ag enw'r feddyginiaeth neu'r cyfarpar, enw'r person sy'n cael ei gael ac unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer y defnydd priodol o'r feddyginiaeth neu'r cyfarpar a roddir gan yr optometrydd sy'n gwneud yr archeb.

---

[2] Oni bai bod yr archeb yn archeb ar gyfer meddyginiaeth neu cyfarpar nad yw'n cael ei restru yng Ngwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru – Llyfr Fformiwlâu Archebion wedi'u Llofnodi.

Rhaid i fferyllfeydd wneud cofnod cyfrifiadurol (neu ysgrifenedig) o unrhyw feddyginiaethau presgripsiwn yn unig a gyflenwir yn unol ag archeb wedi'i llofnodi ar y diwrnod cyflenwi, neu os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, y diwrnod nes. Rhaid i'r cofnod hwn gynnwys:

- Y dyddiad y cafodd y feddyginiaeth presgripsiwn yn unig ei gwerthu neu ei chyflenwi;
- Enw, maint a, heblaw lle mae'n amlwg o'r enw, y ffurflen fferyllol a chryfder y feddyginiaeth bresgripsiwn yn unig a werthir neu a gyflenwir;
- Enw a chyfeiriad yr optometrydd sy'n archebu'r feddyginiaeth presgripsiwn yn unig;
- Enw a chyfeiriad y person y cafodd y feddyginiaeth presgripsiwn yn unig ei harchebu ar ei gyfer; a'r
- Y dyddiad ar yr archeb wedi'i llofnodi.

Cyflwyno ffurflenni archebion wedi'u llofnodi gan fferyllfeydd

Bydd fferyllfeydd yn cael ffioedd proffesiynol a thaliadau ymarfer am bob meddyginiaeth neu gyfarpar y maent yn eu cyflenwi yn erbyn ffurflenni WP10(SO) fel y nodir yn Rhannau III a VIA o'r Tariff Cyffuriau.

Rhaid i gontractwyr fferylliaeth gyflwyno ffurflenni WP10(SO) i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am brisiau ar ddiwedd pob mis. Dylid cyflwyno ffurflenni gan ddefnyddio'r trefniadau sefydledig ar gyfer cyflwyno presgripsiynau'r GIG i'w talu.

Dylid cynnwys manylion nifer y ffurflenni WP10(SO) a'r eitemau a gyflenwir yn unol ag archebion wedi'u llofnodi ar ffurflen WP34C y fferyllfa. Nid oes angen nodi nifer y ffurflenni a'r eitemau WP10(SO) ar wahân a dylid eu cynnwys yng nghyfanswm nifer y ffurflenni a'r eitemau a ddatganwyd. Mae'r rheolau cymeradwyo arferol yn gymwys i ffurflenni WP10(SO) a dylid cynnwys ffurflenni sydd wedi'u cyflwyno yng Ngrŵp 1A i'w prosesu. Mae gwybodaeth bellach am gyflwyno ffurflenni WP10(SO) i'w talu ar gael yn Fferylliaeth Gymunedol - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Bydd ffurflenni archebu wedi'u llofnodi a gyflwynir gan fferyllfeydd i'w talu yn cael eu cadw gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a gellir eu gweld gan fferyllfeydd gan ddefnyddio'r system atodlen talu ar-lein (e-schedule).

Gwybodaeth bellach

Rhagwelir y bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i broffesiynau penodol a phan fo'n briodol, cyfleoedd amlddisgyblaethol ar gyfer optometryddion, fferyllwyr, technegwyr fferylliaeth a thimau optometreg a fferylliaeth i gefnogi'r newidiadau pwysig hyn. Bydd manylion y cyfleoedd hyn yn cael eu cyfleu drwy sianeli cyfathrebu arferol AaGIC.

Gofynnwn i dimau optometreg a fferylliaeth ymgyfarwyddo â'r wybodaeth a ddarperir yn y Cylchlythyr Iechyd hwn a'r dolenni sydd ynddo er mwyn sicrhau bod y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith yn esmwyth ac er budd pobl y mae arnynt angen gofal llygaid hanfodol yng Nghymru.

Yn gywir

Andrew Evans OBE FRPharmS
Y Prif Swyddog Fferyllol/Chief Pharmaceutical Officer
Llywodraeth Cymru/Welsh Government

David O’Sullivan OBE FCOptom
Prif Gynghorydd Optometrig/Chief Optometric Adviser
Llywodraeth Cymru/Welsh Government

**Ynghlwm**

Ffurflen Archebu Optometreg GIG Cymru wedi'i Llofnodi - WP10(SO)

© Crown Copyright © Hawlfraint y Goron

Cleifion – a wnewch chi ddarllen y nodiadau drosodd
Patients – please read notes overleaf

| Stamp y Fferyllfa<br>Pharmacy Stamp | Oedran<br>Age | Enw (yn cynnwys enw cyntaf) a chyfeiriad<br>Name (including forename) and address |
|---|---|---|
| Peidiwch â stampio dros y blwch oedran Try not to stamp over age box | Dyddiad Geni<br>Date of Birth | |

**ARCHEB WEDI'I HARWYDDO**
**SIGNED ORDER**

Pecyn a nifer
Pack & quantity

EXAMPLE NOT VALID FOR USE

**Rhaid cyflwyno'r archeb hon i fferyllydd y GIG yng Nghymru.**
**This order must be submitted to an NHS pharmacist in Wales.**

| Llofnod yr Optometrydd Cymhwysol<br>Signature of Qualifying Optometrist | Dyddiad<br>Date |
|---|---|
| Rhif GOC neu rif Cofrestru Proffesiynol<br>GOC Number or Professional Registration Number | |

Nifer yr eitemau a ddosbarthwyd
No. of Items dispensed

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES